# Polisi Toiledau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

**Cyflwyniad**

Mae Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu. Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein disgyblion a staff ac rydyn ni am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da

<u>Nôd ein polisi yw:</u>

- Galluogi disgyblion, staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob disgybl.

- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol gyfan.

<u>Sut fyddwn yn cyflawni ein hamcanion?</u>

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan y gymuned ysgol gyfan - rheolwyr yr ysgol, staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.

- Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr drwy gydol y diwrnod ysgol. Er y gall disgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn ystod amserau egwyl ac amser cinio os bydd angen, rydyn ni am sicrhau gall disgyblion eu defnyddio unrhyw bryd. Rydyn ni'n cydnabod bod anghenion toiled disgyblion yn amrywio'n fawr ac nad ydyn nhw'n cydymffurfio ag amserlenni caeth. Rydyn ni'n cydnabod bod rhai disgyblion ond yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i'r toiled pan na fydd pobl eraill o amgylch a byddwn ni'n caniatau iddyn nhw adael y dosbarth i ddefnyddio'r toiled.

- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gan gynnwys disgyblion ag anableddau ac anghenion ychwanegol, gyda goleuadau, gosodiadau a ffitiadau digonol.

- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion pob disgybl a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.

- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr.

- Sicrhau bod gan bob un o'r toiledau gyflenwad da a gynhelir yn briodol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau, sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.

- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf yn y toiled staff / cyhoeddus ac yn ciwbiclau'r merched yn y toiledau ar gyfer disgyblion CA2. Dylid sicrhau bod yr unedau gwaredu yn y toiledau yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwylio ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.

- Gosod cyflenwadau dŵr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol.

- Goruchwylio'r toiledau yn ystod amserau egwyl ac amser cinio, os bydd dysgwyr yn credu bod angen gwneud hynny.

- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r disgyblion ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac ymateb o ddifrif i'r rhain a delio gydag unrhyw broblemau a amlygir gan ddisgyblion ac eraill yn brydlon.

- Mynd ati'n weithredol i ymgynghori â'r disgyblion a'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r toiledau.

- Annog dysgwyr i barchu'r toiledau (drwy gyfrwng y Swyddogion Hylendid, y Cyngor Ysgol, y Pwyllgor Lles, gwersi  Datblygiad Personol a Chymdeithasol/ABCh, yn ystod cyfnodau trafod â'r athro/athrawes dosbarth neu wasanaethau ysgol) ac annog disgyblion i sefydlu Cod Ymddygiad  ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi.

- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd yng nghyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

**Rôl Llywodraethwyr**

Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau ysgolion o ran rheoli iechyd a diogelwch. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu datganiad byr ar gyfer Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr yr ysgol am y cyfleusterau toiled a ddarperir i ddysgwyr cofrestredig yr ysgol a'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn lân.

**Gweler hefyd y dogfennau canlynol:**

Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru www.cymru.gov.uk

Dogfennau Gwyliwch y germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer cysylltiedig Meithrinfeydd, Grwpiau Chwarae a Sefydliadau Gofal Plant eraill (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006); Dysgwch wers i germau! Canllawiau ynghylch Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)

| Mabwysiadu'r Polisi |
| --- |
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu: 10/3/21 |
| Dyddiad Cadarnhau a Chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu<br><br>Llawn: 10/3/21 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |